Llais y Goedwig Members Update

October 2010

info@llaisygoedwig.org.uk

Welcome to new Network Coordinator!

Llais y Goedwig is about to employ its first member of staff! We are sure you will all wish to welcome the new Network Coordinator and we will announce who this is in the next Update (although I am sure the person will be contacting you before then).

Llais y Goedwig flies the nest

Coed Lleol have had a supporting role over the last two years, aiding the setting up and development of the nascent community woodland network that has grown into Llais y Goedwig. Now that period of support is coming to an end with Coed Lleol poised to begin a new project focusing on health and wellbeing in woodlands. Over the last two years, Llais y Goedwig has gone from strength to strength and has become and truely representative grass-roots organisation that really reflects the needs of its membership. Many thanks to Coed Lleol for the support, particularly Zena Wilmot, Katy Harris and Deb Wozencraft.

New Office

Llais y Goedwig is moving office. From October, the network's office will be at the Dyfi Ecopark in Machynlleth, the new address is:

Llais y Goedwig, Unit 6, Dyfi Ecopark, Machynlleth, Powys, SY20 8AX

Call for Community Woodland Groups to write case studies

Llais y Goedwig has secured some funding to support community woodland groups to write up a case study on their group and woodland. Five case studies are to be written detailing the setting up, running and evolution of each group, the groups should be full members of Llais y Goedwig.

The case studies should explain the history of the group and include anything you've tried that you'd like to share or reflect on. We'd like the case studies to be examples of what worked or didn't work for your group, highlighting lessons learned along the way and explaining any innovative ideas for income generation (if you have any!). The finished case studies will be made available on the Llais y Goedwig website and could in the future form part of a publication showcasing Llais y Goedwig's members.

The funding will pay for a member of the group to write up the case study. Submissions in English or Welsh will be accepted. Each case study will be an excellent resource for groups

seeking funding in the future. If you'd like to put your group's history into writing but need some guidance, we can support you through this process.

If this interests you, please write a letter explaining what you'd like to document about your group and the board will pick out five for this first round of case studies. Send the letter to the new office address (above) or email info@llaisygoedwig.org.uk

Call for Community Woodland Group to host an event

In a similar vein, Llais y Goedwig is offering funding and support to one community woodland group to organise and host an event in their woodland. The event will be held sometime next year and will be a day-long event with themed workshops and presentations. The Llais y Goedwig Board is looking for the group to organise the event, the funding will pay for this work but support and guidance will be offered.

If you think that your group could host such an event, please write a letter with your ideas to the Llais y Goedwig board at the above address or email info@llaisygoedwig.org.uk

New directors needed for Llais y Goedwig board

This is a very rewarding but challenging opportunity for people to get involved in the running of a strong and vital community network which is supported by the Minister for Rural Affairs and Forestry Commission Wales and has a growing grass-roots membership of 60+ Community Woodland Groups and individual members. Llais y Goedwig has been shaped by the hard work of its volunteer directors since its inception and the network will continue to strengthen and build over the coming years. This is a great opportunity to have a central role in the evolution and development of Llais y Goedwig, its membership, and woodland management in Wales.

Directors are expected to be present at bi-monthly board meetings, often held in Machynlleth. The role is a volunteer position although expenses will be covered. The work load is demanding, often requiring up to four days a month, but manageable and rewarding. For more information on being a Llais y Goedwig director, please get in touch with: Roger Davies on roger.davies@llaisygoedwig.org.uk

Roadshow parks up

The fourth and final Llais y Goedwig Woodland Management Roadshow took place in Cwmbran last Saturday. The event was hosted by Blaen Bran Community Woodland group and was a great success with a record number of delegates. Feedback from the events has been really positive with people enjoying the scope and content of the Roadshows. Participants particularly liked the expert-led workshops and the chance to network and share ideas with other groups. We've gathered lots of comments from people and will be building these ideas and suggestions into subsequent events and gatherings.

Llais y Goedwig membership has really grown during the course of the Roadshows so that now the network really represents the length and breadth of Wales as well as the whole spectrum of community woodland groups. Thanks to all those who have participated and

made the events reflect the richness of local woodland activities and projects. If you couldn't make any of the Roadshows, don't worry, the presentations will be made available on the Llais y Goedwig website and the workshops will be turned into info sheets over the coming months.

More Llais y Goedwig events are being planned, so watch this space!

Climate Change Reader on wooden memory stick

Thanks to a grant from Environment Wales (Next Steps Grant), Llais y Goedwig have produced a Climate Change Reader, available on a wooden USB memory stick made from FSC certified wood. The resource is designed to enable community woodland groups to get access to the huge body of data that exists explaining the impacts and effects of climate change on woodlands, forests and trees. An easy to navigate tool, the Reader incorporates more than 40 articles and reports from organisations such as Forest Research, the Woodland Trust and Flora Locale.

Llais y Goedwig distributed the memory sticks at the Woodland Management Roadshow this summer, where they were given out free to members. If you couldn't make any of the Roadshows, you can still get one of the sticks. They are available to non-members at the cost of £8 each and at a reduced rate of £4 each to all members who sign up after 11th September 2010. If you would like to get a copy of this useful resource, please contact Adam (adamthorogood@llaisygoedwig.org.uk). Please send any feedback on the memory sticks and the Climate Change Reader through to the same email address.

Diweddariad yr Aelodau Llais y Goedwig

Hydref 2010

info@llaisygoedwig.org.uk

Croeso i'r Cydgysylltydd Rhwydwaith newydd!

Mae Llais y Goedwig ar fin cyflogi ei aelod staff cyntaf! Rydym yn sicr y byddwch i gyd yn dymuno croesawu'r Cydgysylltydd Rhwydwaith newydd a byddwn yn cyhoeddi pwy fydd hyn yn y Diweddariad nesaf (er mae'n siŵr y bydd yr unigolyn hwnnw yn cysylltu â chi cyn hynny).

Llais y Goedwig yn hedfan dros y nyth

Mae Coed Lleol wedi bod a rôl gefnogol dros y ddwy flynedd diwethaf, gan gynorthwyo i sefydlu a datblygu'r rhwydwaith coedlannau cymunedol sydd wedi tyfu i fod yn Llais y Goedwig. Yn awr mae'r cyfnod hwn o gefnogaeth yn dod i ben ac mae Coed Lleol ar fin dechrau ar brosiect newydd sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles mewn coedlannau. Dros y

ddwy flynedd ddiwethaf, mae Llais y Goedwig wedi mynd o nerth i nerth ac wedi datblygu i fod yn sefydliad llawr gwlad gwirioneddol gynrychioliadol sy'n adlewyrchu anghenion ei aelodau. Llawer o ddiolch i Goed Lleol am y cymorth, yn arbennig Zena Wilmot, Katy Harris a Deb Wozencraft.

Swyddfa Newydd

Mae Llais y Goedwig yn symud swyddfa. O fis Hydref, bydd swyddfa'r rhwydwaith ym Mharc Eco Dyfi ym Machynlleth. Y cyfeiriad newydd yw:

Llais y Goedwig, Uned 6, Parc Eco Dyfi, Machynlleth, Powys, SY20 8AX

Galwad ar i Grwpiau Coedlannau Cymunedol ysgrifennu astudiaethau achos

Mae Llais y Goedwig wedi sicrhau rhywfaint o gyllid i gefnogi grwpiau coedlannau cymunedol i ysgrifennu astudiaeth achos am eu grŵp a'u coedlan. Mae pump o astudiaethau achos yn mynd i gael eu hysgrifennu yn rhoi manylion am sefydlu a chynnal ac esblygiad pob grŵp. Dylai'r grwpiau hyn fod yn aelodau llawn o Lais y Goedwig.

Dylai'r astudiaethau achos egluro hanes y grŵp a chynnwys unrhyw beth yr ydych wedi rhoi cynnig arno yr hoffech ei rannu neu ei ystyried. Hoffem i'r astudiaethau achos fod yn enghreifftiau o bethau a weithiodd neu o bethau na wnaeth weithio i'ch grŵp chi, gan dynnu sylw at wersi a ddysgwyd ar hyd y ffordd ac egluro unrhyw syniadau arloesol ar gyfer creu incwm (os oes gennych rai!). Sicrheir y bydd yr astudiaethau achos gorffenedig ar gael ar wefan Llais y Goedwig a gallent yn y dyfodol ffurfio rhan o gyhoeddiad yn rhoi sylw i aelodau Llais y Goedwig.

Bydd y cyllid yn talu i aelod o'r grŵp ysgrifennu'r astudiaeth achos. Derbynnir cyflwyniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd pob astudiaeth achos yn adnodd ardderchog i'r grwpiau sy'n chwilio am gyllid yn y dyfodol. Os hoffech roi hanes eich grŵp ar bapur ond bod arnoch angen rhywfaint o arweiniad, gallwn eich cefnogi drwy'r broses hon.

Os yw hyn yn eich diddori, a fyddech cystal ag ysgrifennu llythyr yn egluro beth yr hoffech ei gofnodi am eich grŵp a bydd y bwrdd yn dewis pump ar gyfer y cylch cyntaf hwn o astudiaethau achos. Anfonwch y llythyr i gyfeiriad y swyddfa newydd (uchod) neu ebostiwch Anfonwch y llythyr i gyfeiriad y swyddfa newydd (uchod) neu e-bostiwch info@llaisygoedwig.org.uk <mailto:info@llaisygoedwig.org.uk>

Galw Grŵp Coedlan Cymunedol i westeio digwyddiad

Ar nodyn tebyg, mae Llais y Goedwig yn cynnig cyllid a chefnogaeth i un grŵp coedlan gymunedol i drefnu a gwesteio digwyddiad yn eu coedlan. Cynhelir y digwyddiad rywbryd y flwyddyn nesaf a bydd yn ddigwyddiad diwrnod o hyd gyda gweithdai a chyflwyniadau o dan themâu arbennig. Mae Bwrdd Llais y Goedwig yn gobeithio y bydd y grŵp yn trefnu'r digwyddiad, bydd y cyllid yn talu am y gwaith hwn ond cynigir cymorth ac arweiniad.

Os credwch y gall eich grŵp chi gynnal digwyddiad o'r fath, a fyddech cystal ag ysgrifennu llythyr gyda'ch syniadau at fwrdd Llais y Goedwig i'r cyfeiriad uchod neu ebostiwch Os

credwch y gall eich grŵp chi gynnal digwyddiad o'r fath, a fyddech cystal ag ysgrifennu llythyr gyda'ch syniadau at fwrdd Llais y Goedwig i'r cyfeiriad uchod neu e-bostiwch info@llaisygoedwig.org.uk <mailto:info@llaisygoedwig.org.uk>

Angen cyfarwyddwyr newydd i fwrdd Llais y Goedwig

Mae hwn yn gyfle gwych iawn ond heriol i bobl gymryd rhan yn y gwaith o gynnal rhwydwaith gymunedol gref a hanfodol a gefnogir gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae gan Llais y Goedwig aelodaeth sy'n tyfu o 60+ o Grwpiau Coedlannau Cymunedol ac aelodau unigol. Mae Llais y Goedwig wedi ei ffurfio gan waith caled ei gyfarwyddwyr gwirfoddol ers ei ddechreuad a bydd y rhwydwaith yn parhau i gryfhau a datblygu dros y blynyddoedd i ddod. Mae hwn yn gyfle gwych i fod â rôl ganolog yn y gwaith o esblygu a datblygu Llais y Goedwig, ei aelodaeth a rheoli coedlannau yng Nghymru.

Disgwylir i gyfarwyddwyr fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r bwrdd a gynhelir bob dau fis, a hynny'n aml ym Machynlleth. Mae'r rôl yn swydd wirfoddol er y telir treuliau. Mae'r llwyth gwaith yn drwm, ac yn gofyn yn aml am hyd at bedwar diwrnod y mis, ond y mae hyn yn ymarferol ac mae'r gwaith yn bleserus. I gael mwy o wybodaeth am fod yn gyfarwyddwr Llais y Goedwig, cysylltwch â: Roger Davies ar roger.davies@llaisygoedwig.org.uk

Sioe Deithiol yn dirwyn i ben

Cynhaliwyd pedwaredd Sioe Deithiol a sioe deithiol olaf Rheoli Coedlannau Llais y Goedwig yng Nghwmbran ddydd Sadwrn diwethaf. Gwesteiwyd y digwyddiad gan grŵp Coedlan Gymunedol Blaen Bran ac roedd yn llwyddiant mawr gyda'r nifer mwyaf erioed o gynrychiolwyr yn bresennol. Mae'r adborth a gafwyd o'r digwyddiadau wedi bod yn wirioneddol gadarnhaol gyda phobl yn mwynhau cwmpas a chynnwys y Sioeau Teithiol. Roedd y cyfranogwyr yn hoffi'r gweithdai yn arbennig o dan arweiniad arbenigwyr, a'r cyfle i rwydweithio a rhannu syniadau gyda grwpiau eraill. Rydym wedi casglu llawer o sylwadau gan bobl a byddwn yn cynnwys y syniadau a'r awgrymiadau hyn mewn digwyddiadau a chyfarfodydd yn y dyfodol.

Mae aelodau Llais y Goedwig wedi cynyddu yn ystod y Sioeau Teithiol ac erbyn hyn mae'r rhwydwaith yn cynrychioli pob rhan o Gymru yn ogystal â sbectrwm eang o grwpiau coedlannau cymunedol. Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan a gwneud i'r digwyddiadau adlewyrchu cyfoeth y gweithgareddau a'r prosiectau y mae coedlannau lleol yn gysylltiedig â nhw. Os na allech gyrraedd unrhyw rai o'r Sioeau Teithiol, peidiwch â phoeni, bydd y cyflwyniadau ar gael ar wefan Llais y Goedwig a bydd y gweithdai yn cael eu troi yn daflenni gwybodaeth dros y misoedd i ddod.

Mae mwy o ddigwyddiadau Llais y Goedwig yn cael eu cynllunio, felly gwyliwch y gofod hwn!

Darllenydd Newid Hinsawdd ar gofbin pren

Diolch i grant gan Amgylchedd Cymru (Grant Camau Nesaf), mae Llais y Goedwig wedi cynhyrchu Darllenydd Newid Hinsawdd sydd ar gael ar gofbin USB pren a wnaed o bren wedi ei ardystio gan CCC. Bwriedir i'r adnodd alluogi grwpiau coedlannau cymunedol i gael

mynediad at y corff enfawr o ddata sy'n bodoli ac sy'n egluro effeithiau newid hinsawdd ar goedlannau, coedwigoedd a choed. Mae'n declyn hawdd ei ddefnyddio, ac mae'r Darllenydd yn cynnwys mwy na 40 o erthyglau ac adroddiadau gan gyrff fel Forest Research, yr Ymddiriedolaeth Coedlannau a Flora Locale.

Dosbarthodd Llais y Goedwig y cofbinnau yn Sioe Deithiol Rheoli Coedlannau'r haf hwn, lle y dosbarthwyd nhw am ddim i'r aelodau. Os na allech gyrraedd unrhyw rai o'r Sioeau Teithiol, gallwch ddal i gael un o'r cofbinnau. Maent ar gael i rai nad ydynt yn aelodau am bris o £8 yr un ac am bris gostyngol o £4 yr un i'r holl aelodau sy'n arwyddo ar ôl 11 Medi 2010. Os hoffech gael copi o'r adnodd defnyddiol hwn, cysylltwch ag Adam (adamthorogood@llaisygoedwig.org.uk). A fyddech cystal ag anfon unrhyw adborth am y cofbinnau a'r Darllenydd Newid Hinsawdd i'r un cyfeiriad e-bost.